



Dewch i ymuno â ni!

Chweched y Fro ar ei newydd wedd.



Gair y Pennaeth

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno'r cylchlythyr diweddaraf hwn i chi sy'n crynhoi rhai o uchafbwyntiau ein Chweched Dosbarth yma yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Wrth i chi offen eich astudiaethau ym mlwyddyn 11, mae'n naturiol ystyried y cam nesaf a beth fyddwch chi eisiau ei wneud ym mis Medi. Gobeithiaf y bydd darllen y cylchlythyr hwn yn rhoi blas i chi o weithgareddau'r Chweched Dosbarth a'r gorwelion ehangach a gynigir wrth i chi astudio gyda ni. Mae cymaint o ddrysau newydd yn agor wrth i chi astudio yn Chweched Dosbarth Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Yma, rhoddir yr un pwyslais ar lwyddiant a datblygiad academaidd ag a wneir ar ofalu am eich iechyd a'ch lles. Mae'r holl athrawon yn eich adnabod chi'n dda ac yn gofalu amdanoch.

Does dim adeg gwell i ymuno gyda Chweched Y Fro nag ym mis Medi 2021. Rydym wedi penodi tîm arbennig o athrawon i'ch arwain gan gynnwys dau bennaeth blwyddyn profiadol ac arweinyddion her a sgiliau. Yn ogystal, eich blwyddyn chi fydd y cyntaf i gael defnydd llawn o holl adnoddau newydd 'Ardal y Chweched Dosbarth' gan gynnwys ystafell gyffredin ac ystafelloedd astudio modern i ddisgyblion y Chweched Dosbarth yn unig. Rydyn ni'n ymrwymedig i gynnig yr addysg a'r cyfleoedd gorau i chi. Yma, ceir croeso cynnes i unrhyw un sydd eisiau ymuno â chymuned y chweched dosbarth. Felly, darllenwch, mwynhewch a dewch i ymuno â ni ym mis Medi – Chweched Dosbarth Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei newydd wedd.

Mr Rhys Angell Jones



Y Tîm

Manteision Astudio yn y Chweched Dosbarth

- Croeso cynnes
- Gofal unigryw
- Diwylliant Cymreig
- Adnabyddiaeth athrawon
- Canlyniadau rhagorol
- Amrywiaeth o bynciau
- Ymdeimlad o berthyn
- Cyfleoedd di-ri
- Rhan o gymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach

Adnoddau Newydd

- Ystafell gyffredin i ymlacio a chymdeithasu
- Ystafelloedd astudio i'r Chweched Dosbarth yn unig
- Llyfrgell Ysgol
- Ystafelloedd Seminar
- Adnoddau Adran Addysg Gorfforol (Cae 3G, Ystafell Fftrwydd, Neuadd Chwaraeon)

Canlyniadau Rhagorol

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae disgyblion Chweched Dosbarth Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg wedi profi llwyddiant arbennig o ran eu canlyniadau Lefel A. Yn 2020, llwyddodd 100% o ddisgyblion i sicrhau 2 neu fwy o gymwysterau Safon Uwch A*-E. Llwyddodd 93.6% o ddisgyblion i sicrhau 3 neu fwy A*-E tra llwyddodd 76.36% o'r flwyddyn i sicrhau 3 neu fwy A*-C. Roedd 47% o holl raddau'r disgyblion yn raddau A*-A.

Yn 2019, llwyddodd 100% o ddisgyblion i sicrhau 3 neu fwy A*-E tra llwyddodd 68.3% o'r flwyddyn i sicrhau 3 neu fwy A*-C. Roedd 21.4% o holl raddau y disgyblion yn raddau A*-A. Sicrhodd y Fagloriaeth Gymraeg bod 85.4% o ddisgyblion yn sicrhau gradd A*-C gyda 41.5% yn raddau A*-A.

Y flwyddyn nesaf, bydd tîm newydd i'ch arwain a'ch cynnal drwy'r Chweched Dosbarth.

Y Tîm:

Miss Bethan Jones (Pennaeth Cynorthwyol)
Mr Owain Rowlands (Pennaeth Blwyddyn)
Mrs Bethan Morgan (Pennaeth Blwyddyn)
Mrs Siân James (Arweinydd Her)
Mr James Evans (Arweinydd Sgiliau)



Neuadd Chwaraeon



Llyfrgell Ysgol



Ystafell gyffredin



Taith i Nicaragua



Ystafell astudio



Taith i Langrannog



Dyfodol disglair

Wedi i chi astudio yn Chweched Dosbarth Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, agorir drysau i lu o brofiadau a chyfleoedd newydd a chyffrous. Dyma lwybrau amrywiol rhai o ddisgyblion blwyddyn 13; o Brifysgolion gorau'r byd i brentisiaethau modern!

Mae Rhys Griffiths, blwyddyn 13, yn astudio Saesneg, Hanes, Mathemateg a Thystysgrif Her Sgiliau. Ei obaith y flwyddyn nesaf yw astudio Saesneg yn Ngholeg Gonville a Caius, Prifysgol Rhydychen. Dilyna Rhys yn ôl troed deg disgybl blaenorol o'r ysgol a dderbyniodd gynning i astudio ym Mhrifysgolion Rhydychen neu Gaergrawnt dros y pum mlynedd diwethaf. Dyma ei hanes:

'Dewisais i aros yn y Chweched Dosbarth i astudio Lefelau A er mwyn cael fy nerbyn i Brifysgol. Penderfynais i ddewis pynciau a oedd o ddiddordeb i fi. Am fy mod yn adnabod yr adrannau a'r athrawon yn dda, roeddwn i'n hyderus wrth ddewis y pynciau fy mod am gael fy ngwthio a'm herio i gyflawni fy mhotensial.'

Pam astudio yn YGBM?

'Ceir yma awyrgylch unigryw! Mae yma agosatrwydd; rhwng cyd-ddisgyblion a hefyd rhwng athrawon a disgyblion. Mae pawb yn eich adnabod chi felly cewch eich herio i gyrraedd yr uchelfannau. Roedd astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r ymdeimlad Cymreig yn bwysig iawn i fi a chredaf ei fod yn creu cyswllt nes a chryfach rhwng y disgyblion a'r athrawon. Derbyniais i gymaint o gefnogaeth dros y blynyddoedd a thra'n paratoi i fynd i'r Brifysgol, allaf i ddim diolch digon!'

Pam parhau yn y Chweched Dosbarth gyda ni?

Alys Evans (Astudio Llenyddiaeth Saesneg, Daearyddiaeth, Ffrangeg a Thystysgrif Her Sgiliau. *Y flwyddyn nesaf, astudio Y Gyfraith, Prifysgol Bryste*) - 'Dewisais i aros gan fod fy athrawon yn fy adnabod yn dda, ac wedi medru fy ngalluogi i gyrraedd fy llawn botensial; yn academaidd ac fel oedolyn ifanc. Cefais i'r cyfle i arwain Clwb Ffrangeg i ddisgyblion blwyddyn 4 a 5 yr ysgol gynradd. Dyma brofiad arbennig i ddatblygu fy sgiliau arwain, i gysylltu gyda'r ysgol ehangach ac uno'r ysgol. Roedd hi'n fraint fod yr athrawon yn ymddiried ynom ni fel pobl ifanc i arwain clwb ein hunain.'

Ethan Wall (Astudio Llenyddiaeth Saesneg, Drama, Dylunio a Thechnoleg a Thystysgrif Her Sgiliau. *Y flwyddyn nesaf, astudio Saesneg a Ffilm, Prifysgol Bryste*) - 'Dewisais i aros yn y Chweched Dosbarth er mwyn parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn cymuned ble rwy'n gwbl gyfforddus a hapus. Hefyd, mae'r cyfleoedd sydd ar gael i ni fel disgyblion wedi bod yn arbennig.'

Glesni Siôn (Astudio Cemeg, Bioleg, Hanes a Thystysgrif Her Sgiliau. *Y flwyddyn nesaf, treulio blwyddyn fwlch cyn astudio Meddygaeth*)- 'Yn bersonol, 'dw i wedi mwynhau fy nghyfnod yma yn y Chweched – mae cymaint o gyfleoedd. Penderfynais barhau yn y Chweched Dosbarth gan y byddwn yn cael cymaint mwy o gyfleoedd a phrofiadau. Roedd y cyfle i fynd i Langrannog fel SWOG gyda disgyblion blwyddyn 7 yn uchafbwynt i fi. Roedd hi'n arbennig gallu datblygu perthnasau gyda disgyblion iau yr ysgol gan eu harwain a bod yn rhywun aeddfed y gallent droi atynt.'

Ioan Davies (Astudio Mathemateg, Ffiseg, Daearyddiaeth a Thystysgrif Her Sgiliau. *Y flwyddyn nesaf, astudio Peirianeg Sifil ym Mhrifysgol Caerdydd*)- 'Y prif beth i fi oedd y ffaith mod i'n cael parhau gyda fy addysg yn y Gymraeg. Ond hefyd, mae yma ddosbarthiadau gyda llai o ddisgyblion sy'n golygu felly bod gennych chi berthynas arbennig gyda phob un o'ch athrawon; maen nhw'n ein adnabod ni a bob amser yno i'n cefnogi. Roedd cymaint o ddewis o opsiynau, felly roedd modd i fi ddewis amrywiaeth o bynciau gan fod yn hyblyg.'



Profiadau Prif Ddisgyblion



Beca Jones

Cofiwch, does dim rhaid parhau i'r Brifysgol wedi i chi gwblhau eich hastudiaethau gyda ni yn y Chweched Dosbarth. Dyma hanes Beca Jones, sy'n astudio Hanes, Llenyddiaeth Saesneg, Sbaeneg a Thystysgrif Her Sgiliau. Mae hi wedi derbyn prentisiaeth gyda chwmni adeiladu yr ysgol hon, ISG.

Esbonia hi i ni'n gyntaf pam iddi ddewis astudio Lefel A:

'Mae dewis i astudio Lefel A wedi i chi gwblhau TGAU yn agor nifer o ddrysau i'ch dyfodol. Mae hefyd yn eich paratoi i feddwl beth hoffech ei wneud ar ôl gorffen ysgol – sy'n gallu bod yn ddewis eithaf dychrynlyd!'


Pam astudio yn YGBM?

'Yn ogystal â chael ysgol lawn o athrawon sy'n barod i'ch helpu ac sy'n angerddol am eu pynciau, mae'r elfen gymdeithasol a lles yn cael llawer o ystyriaeth. Ceir cyfleoedd allgyrsiol di-ri a datblygir eich perthynas gyda'ch cyd-ddisgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig cyfleusterau arbennig fel ystafelloedd gweithio a chymdeithasu.'

Beth i'w wneud ar ôl Lefel A?

'Gall fod yn frawychus i feddwl am eich dyfodol ond mae cymryd amser i astudio Lefel A yn helpu gyda hyn wrth i chi aeddfedu. Penderfynais astudio Lefelau A heb wybod beth oeddwn i eisiau ei wneud yn fy nyfodol; p'un ai mynd i Brifysgol neu brentisiaeth. Cefais gyfle i fynd i'r Ffair Yrfaedd gyda'r ysgol a darganfod fod gen i ddiddordeb yn y maes adeiladu – rhywbeth na ystyriais i o'r blaen. Rwyf wedi derbyn prentisiaeth sy'n arwain at radd yn ogystal â chyflog a swydd. Felly does dim rhaid mynd i'r Brifysgol i gael swydd!'

Beth nesaf?



Meirin Evans



Mason Grady



Hana Lily

Dyma rai o gyn-ddisgyblion Chweched Dosbarth Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg sydd wedi serennu mewn meysydd tra wahanol!

Meirin Evans – Pynciau Lefel A: Ffiseg, Mathemateg, Mathemateg Pellach a Chemeg
Heddiw: Ffisegydd Gronynnau, Cwmni CERN, Swistir

Mason Grady – Pynciau Lefel A: Addysg Gorfforol, Mathemateg a Gwyddorau Meddygol
Heddiw: Cynrychioli Cymru yn nhim rygbi o dan 20 ac yn chwarae i dim y Gleision, Caerdydd

Hana Lily – Pynciau Lefel A: Cerddoriaeth (BTEC), Celf a Drama
Heddiw: Rhyddhau sengl newydd 'Stay' ac astudio cwrs 'Cynhyrchu Cerddoriaeth' ym Mhrifysgol BIMM, Llundain

Dyma'r llwybrau amrywiol eraill a ddilyniar gan rai o ddisgyblion blwyddyn 13 eleni.



Morgan Bailey

Pynciau Lefel A: Bioleg, Cemeg, Ffiseg a Thystysgrif Her Sgiliau

Cwrs: Meddygaeth, Coleg y Brenin (King's College), Llundain

Pynciau Lefel A: Mathemateg, Mathemateg Pellach, Ffiseg a Thystysgrif Her Sgiliau

Cwrs: Mathemateg a Ffiseg, Prifysgol Bath



Ben Curran

Pynciau Lefel A: Drama, Seicoleg a Thystysgrif Her Sgiliau

Cwrs: Seicoleg mewn Addysg, Prifysgol Bryste



Megan Cullinane

Pynciau Lefel A: Mathemateg, Bioleg, Cemeg a Thystysgrif Her Sgiliau

Cwrs: Meddygaeth, Prifysgol Southampton



Cadi-Haf Rhys-Birney



Bethan Lee

Pynciau: Cymdeithaseg, Mathemateg, Llenyddiaeth Saesneg a Thystysgrif Her Sgiliau

Cwrs: Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymrwysedig, Prifysgol Derby



Math O'Donnell

Pynciau: Hanes, Gwleidyddiaeth, Llenyddiaeth Saesneg a Thystysgrif Her Sgiliau


Cwrs: Ffilm a Theledu, Prifysgol Bryste



Lauren Jenkins

Pynciau: Gwyddorau Meddygol, Seicoleg, Cymdeithaseg a Thystysgrif Her Sgiliau

Cwrs: Gwyddorau Parafeddyg, Prifysgol Abertawe



Josh Davies

Pynciau: Addysg Gorfforol, Bioleg, Iaith a Llenyddiaeth Saesneg a Thystysgrif Her Sgiliau

Cwrs: Therapi Chwaraeon, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Eisiau cyngor? Ansicr am eich dyfodol? Cysylltwch gyda ni!
post@bromorgannwg.org.uk
01446 450280